**COFNODION O BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

**BWRDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A DIOGELWCH CYMUNEDOL Y CABINET**

**15 RHAGFYR 2022**

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: J Hale, S Harris ac A.Llewelyn

**Swyddogion yn Bresennol:**

J Hodges, A Jarrett, C Jones, N Jones, A Thomas, Thomas, S Waite and K Warren

**Swyddfa Archwilio Cymru:**

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Llewellyn yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion 10 Hydref 2022 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Bod Blaenraglen Waith y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol yn cael ei nodi.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION - ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2 (EBRILL 2022 - MEDI 2022)**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

8. **DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2022-2023 PERFFORMIAD CHWARTER 2 (1 EBRILL 2022 - 30 MEDI 2022)**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

10. **POLISI DIOGELU CORFFORAETHOL**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

11. **CYNLLUN LESIO CYMRU**

**Penderfyniad:**
Bod yr Aelodau'n cymeradwyo rhoi Cynllun Lesio Cymru ar waith, yn seiliedig ar y cynnig arfaethedig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu a rheoli hyd at 82 eiddo.

Yn ogystal, bod pwerau dirprwyedig yn cael eu rhoi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion gymeradwyo unrhyw fân newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd rhoi Cynllun Lesio Cymru ar waith yn cynyddu'r ystod o opsiynau tai sydd ar gael i gynorthwyo i gyflawni dyletswyddau digartrefedd statudol yn y sector preifat.
Mae model Cynllun Lesio Cymru wedi'i ddatblygu i greu ymyriad ychwanegol a fydd yn helpu i fynd i'r afael ag eiddo gwag, amodau tai gwael ac effeithiau cymunedol andwyol cysylltiedig.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben ddydd Llun, 19 Rhagfyr 2022.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

12. **<u>TREFNIADAU GRANT AR GYFER DARPARU CYLLID CANOLFANNAU CLYD</u>**

**Penderfyniad:**
Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion i ddyfarnu arian sy'n cynnwys Cronfa Canolfannau Clyd Llywodraeth Cymru ac ymrwymo i gytundebau grant gyda sefydliadau y mae eu ceisiadau am gyllid Canolfannau Clyd wedi'u gwerthuso fel y rheini sy'n bodloni gofynion ceisiadau'r Canolfannau Clyd orau.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Manteisio i'r eithaf ar fuddion y gronfa Canolfannau Clyd i breswylwyr Castell-nedd Port Talbot drwy ddyfarnu Cyllid Canolfannau Clyd i'r ymgeiswyr llwyddiannus mewn modd amserol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith.

13. **<u>LLWYFAN GWASANAETH CWNSELA CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU</u>**

**Penderfyniad:**
Bod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai yn cael awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontract newydd gyda Platfform ar gyfer darparu Gwasanaeth Cwnsela Camddefnyddio Sylweddau yn rhanbarth Bae'r Gorllewin am yr amser a'r gost a nodir yn yr adroddiad hwn.

2. Yn unol â Rheol Gweithdrefn Contract 7.2, fod y gofyniad am dendro cystadleuol a dyfarnu contract yn uniongyrchol i Platfform ar gyfer darparu Gwasanaeth Cwnsela yn cael ei hepgor.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Sicrhau y gellir parhau i roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith ar gyfer darparu cwnsela arbenigol, a hysbysir gan drawma, ar gyfer unigolion â phroblemau camddefnyddio sylweddau, yn rhanbarth Bae Abertawe ac er mwyn sicrhau parhad gofal.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Cynigir rhoi'r penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben ddydd Llun, 19 Rhagfyr 2022.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes gofyniad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

14. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CHAIRPERSON**